**Y Pwyllgor Diwylliant CC-14-01(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 19 Gorffennaf |
| **Amser:** | 14.00pm-16.00pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd) – eitem 4 yn unig

Jonathan Morgan (Ceidwadwr, Canol De Cymru)

**Ymddiheuriadau:**

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Russell Thomas (Pennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

Reg Kilpatrick (Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol) – eitem 3 yn unig

Michael Parkinson (Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg) – eitem 3 yn unig

**Datganiadau o fuddiant:** Datganodd y Cadeirydd ei aelodaeth o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

Mae Rosemary Butler yn gadeirydd bwrdd cysgodol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.

Mae gwr Lorraine Barrett yn gwneud cais am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae gwraig Dafydd Wigley yn gyfrannwr amlwg at y maes celfyddydol yng Nghymru.

**Sylwadau rhagarweiniol**

Rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i Val Feld, Aelod o'r Cynulliad, a fu farw'n ddiweddar. Ar ran y Pwyllgor estynnodd gydymdeimlad â'i theulu.

**Eitem 1: Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru (AOCC): Ymgynghoriad ar arddangos celfyddyd**
**Papur: CC-14-01(p.1)**

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

Cynrychiolwyr:

Anna Southall, Cyfarwyddwr

Michael Tooby

Cyflwynodd Cyfarwyddwr AOCC yr eitem yn fyr. Dywedodd ei bod yn ymwybodol o'r angen am ymgynghoriad ar arddangos celfyddyd er pan benodwyd hi ym 1996. Daeth yn ymwybodol o'r ddadl gyhoeddus ar y pryd yng Nghymru ynglyn â'r angen am oriel genedlaethol. Pan benodwyd Michael Tooby, rhoddodd y Cyfarwyddwr her iddo, sef canfod ffordd o ddatrys y ddadl a sicrhau bod AOCC wrth galon y drafodaeth.

Rhoddodd Michael Tooby gyflwyniad ar Gam Cyntaf yr ymgynghoriad. Y rhain oedd y prif bwyntiau:

- Bu'r ymgynghori yn eang ac fe'i seiliwyd ar amrywiaeth eang o brofiad. Hwyluswyd chwe sesiwn ymgynghori yn annibynnol; cafodd cyfarfod agored hefyd ei hwyluso'n annibynnol a'i fynychu gan 105 o bobl.

Dyma brif argymhellion y Cam Cyntaf:

- AOCC yw'r corff gorau i ddatblygu dadleuon ynglyn ag oriel genedlaethol, neu syniadau tebyg, gan mai ef yw'r corff priodol i wneud hynny yng ngoleuni ei arbenigedd, ei berspectif a'i gasgliadau.

- Mae'n dal yn briodol dangos gwaith Cymreig a gwaith o'r tu allan i Gymru.
- Er bod y casgliad yn amlwg yn adnawdd y bydd arddangosiadau yn tynnu ohono, nid arddangos yw unig ddiben casglu.
- Mae teimlad cryf bod rhaid i'r Amgueddfa beidio ag esgeuluso'r materion sy'n deillio o'i darpariaeth ar draws Cymru nac o'r gallu i gydweithio â'r rhwydwaith rhanbarthol o orielau ar draws y wlad.

- Dylid dathlu diwylliant gweledol arbennig Cymru fel arfer fyw yng nghyd-destun diwylliant gweledol rhyngwladol.

- Mae gwaith artistiaid Cymreig byw yn elfen allweddol yn y ffordd y caiff diwylliant gweledol Cymru ei arddangos yn yr Amgueddfa, a bydd, yn sicr, yn elfen eiconig mewn unrhyw oriel genedlaethol newydd.

- Mae'r ddadl ynghylch pa mor ddymunol fyddai cael adeilad neu sefydliad newydd ymhell o fod wedi ei datrys.

Bydd Ail Gam yr arolwg yn rhoi sylw i:

- Bartneriaethau AOCC o amgylch Cymru
- Hyrwyddo, marchnata a dehongli
- Isadeiledd ac adnoddau AOCC

Bydd y camau nesaf yn cynnwys edrych ar:

- Faterion yn ymwneud â mynediad ac ymwybyddiaeth
- Datblygu dulliau newydd o gyflwyno celfyddyd a'r goblygiadau o ran refeniw cost ac isadeiledd
- Datblygir y gwahanol ddewisiadau dros yr haf a'u cyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref.

Gobeithir y bydd Ail Gam yr adroddiad wedi ei gwblhau erbyn Chwefror 2002.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ateb cwestiwn am y camau nesaf y mae AOCC yn eu cymryd i ddatblygu canolfannau o gwmpas Cymru, atebodd Mr Tooby fod gan AOCC strwythur eisoes lle mae'n anfon prosiectau ac arddangosfeydd at wahanol bartneriaid ar hyd ac ar led Cymru. Mae AOCC hefyd yn ddiweddar wedi penodi swyddog ymchwil â'r gorchwyl penodol o ddatblygu partneriaethau. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr mai rhywbeth dwy-ffordd oedd partneriaeth ac y gallai'r Amgueddfa fod am gael benthyg gweithiau o orielau ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru.
- Un o dasgau'r Swyddog Ymchwil newydd a grybwyllwyd uchod fydd cynnal ymarfer mapio o ganolfannau posibl o gwmpas Cymru a allai ddod o dan faner yr 'Oriel Genedlaethol'. Mae'n bosibl na fydd lleoliad canolfannau o'r fath o anghenraid yn gwneud map daearyddol taclus.
- Dywedodd y Gweinidog fod ganddi ddiddordeb mawr yng nghanlyniadau Cam Cyntaf yr ymarfer ymgynghori ond rhybuddiodd yn erbyn atebion gan AOCC yn unig. Cyfeiriodd at y lliaws o gyfleoedd rhagorol ar gyfer arddangosiadau o gelfyddyd mewn mannau eraill yng Nghymru. Adroddodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio cynnal cynlluniau partneriaeth prawf i gyd-redeg ag ail gam yr arolwg yn yr hydref. Dywedodd y Cadeirydd a'r Gweinidog eu bod yn aros yn awyddus am ganlyniadau Ail Gam yr arolwg.

**Eitem 2: Adolygiad pum-mlynyddol o Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**
**Papur: CC-14-01(p.2)**

Adolygwyr:

Dr Peter A Watt, Ysgol Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Birmingham

Dr Simon Delay, Ysgol Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Birmingham

AOCC:

Anna Southall, Cyfarwyddwr

Mark Richards

Hefyd yn bresennol:

Michael Trickey, Yr Is-adran Cynllunio Ariannol

Eglurodd Michael Trickey y cefndir i'r eitem hon yn fyr. Atgoffodd y Pwyllgor mai adroddiad terfynol drafft oedd hwn, yr oedd y Pwyllgor wedi cael cyfle i gynnig sylwadau arno fel rhan o'r

broses ymgynghori, cyn i'r adroddiad gael ei drosglwyddo i'r Gweinidog i weithredu arno.

Crynhodd Dr Peter Watt y prif gasgliadau a'r argymhellion yn yr adroddiad:

- Mae'r Amgueddfa yn gorff sy'n cael ei lywodraethu a'i gyfarwyddo'n dda ac sydd yn ddiweddar wedi gwneud gwelliannau sylfaenol i'w drefniadau ar gyfer gwireddu amcanion strategol y Cynulliad.
- Dylai'r Cynulliad wahodd Llys yr Amgueddfa i ystyried aildrefnu trefn Lywodraethu'r Amgueddfa. Gallai fod rhinwedd yn esblygiad y Llys yn grwp partneriaeth. O ran aelodau'r Cyngor a benodid gan y Llys, awgryma'r adroddiad y gallai'r Cynulliad benodi rhagor o'r aelodau nag a wna ar hyn o bryd, ac y gallai'r grwp partneriaeth, pe câi ei sefydlu, ymwneud â phenodi'r aelodau eraill. O safbwynt annibyniaeth, er hynny, yr oedd yn well i'r Cynulliad beidio â thra-arglwyddiaethu ar y broses benodi.
- Dylai'r trefniadau penodi fod yn agored a thryloyw a dilyn egwyddorion Nolan.
- O ran gwariant, ymddengys gwariant AOCC ar weithrediadau a chynnal a chadw yn uchel, ond mae'r gwario ar ddatblygu cysylltiadau cyhoeddus a gallu i gynllunio'n strategol yn gymharol isel.
- Dylai AOCC ymchwilio ymhellach i'r defnydd o ymarferion ymgynghori cyhoeddus.
- Dylai AOCC fynd ymlaen i ehangu eu canolfan gasgliadau yn Nantgarw fel blaenoriaeth.
- Mae angen diweddaru rhai o arddangosiadau'r Amgueddfa. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn argymell y dylai'r Amgueddfa ailedrych ar ei threfniadau presennol ar gyfer cyflwyno arddangosiadau ac arddangosfeydd gyda golwg ar ddatblygu strategaeth ar gyfer diweddaru elfennau o'r maes gweithgaredd hwn o'i heiddo.
- Mae'r Amgueddfa wedi datblygu perthynas dda â'i phartneriaid a'i chwsmeriaid ac at ei gilydd mae ei llywodraeth gorfforaethol yn foddhaol. Er hynny, dylai AOCC a'i archwilwyr ystyried sut i sicrhau mwy o ganolbwyntio ar werth am arian.
- At ei gilydd gwnaeth perfformiad yr Amgueddfa argraff dda ar yr arolygwyr ac roeddent yn ffyddiog ei bod yn dilyn llwybr cadarnhaol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol yn y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch pa rai o 24 argymhelliad yr arolwg ddylai gael blaenoriaeth, dywedodd Dr Watt y dylid trin ehangu'r ganolfan gasgliadau fel blaenoriaeth, ac roedd rhai o'r farn y dylai hon gael ei hagor i'r cyhoedd. Roedd aildrefnu'r gyfundrefn Lywodraethu hefyd yn bwysig, ond byddai angen i hyn roi ystyriaeth i dymor y Llywydd presennol.
- Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch y berthynas weithio dda rhwng AOCC a Chyngor Amgueddfeydd Cymru, cytunai Dr Watt i'r trafodaethau â'r Cyngor fod yn ffrwythlon ac ystyrlon, ond yr oedd penderfyniadau ynghylch posibiliadau cydweithio agosach yn ddarostyngedig i benderfyniadau ynglyn â sefydlu "Resource" Cymreig.
- Wrth ateb cwestiwn ynghylch manteision cymryd yswiriant masnachol i AOCC, dywedodd Dr Delay fod yr Amgueddfa ar hyn o bryd yn treulio amser mawr ar drafod hawliadau. Byddai cymryd yswiriant masnachol yn ffordd o drosglwyddo hyn i fan arall.
- Daeth y Pwyllgor i'r casgliad ei fod yn fodlon i'r adroddiad fynd ymlaen at y Gweinidog fel

y’i drafftiwyd.

**Eitem 3: Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad Cenedlaethol**
**Papur: CC-14-01(p.3)**

Disgrifiodd O Gwyn Griffiths y cyd-destun deddfwriaethol y paratowyd Cynllun Iaith Gymraeg y Cynulliad ynddo. Dyfynnodd a.47(1) yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 sy’n datgan:

"The Assembly shall in the conduct of its business give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality".

Cyflwynwyd yr eitem gan y Gweinidog. Diolchodd i’r swyddogion am ddrafftio’r cynllun ac i Rosemary Butler ac Owen John Thomas am eu hamser a’u cyfraniad i Weithgor y Pwyllgor. Gofynnodd i’r aelodau gofio nad oedd y cynllun hwn yn cynnwys gwaith Swyddfa’r Llywydd.

Gwnaed y sylwadau canlynol wrth drafod:

- Tynnodd aelodau sylw at y ffaith nad oedd y cynllun yn ymwneud â materion cysylltiedig â hyfforddi staff i ddrafftio yn y ddwy iaith yr un pryd (rhywbeth sy’n gyffredin mewn rhai ardaloedd yng Nghanada), ac y byddai cyrsiau hyfforddi trwy ymdrwythiad yn helpu hynny i ddigwydd. Atebodd y swyddogion fod amrywiol becynnau hyfforddi yn cael eu harchwilio ar gyfer staff y Cynulliad, ac un ohonynt oedd cyflogi athrawon Cymraeg i weithio ochr yn ochr â staff.
- Lleisiwyd beirniadaeth mai ychydig a gyflawnwyd er pan ddaeth cynllun blaenorol y Swyddfa Gymreig i fodolaeth. Nododd un aelod fod y ddogfen yn cyfeirio dro ar ôl tro at ‘staff Cymraeg eu hiaith’, pan ddylai’r ddogfen fod wedi defnyddio’r term ‘dwyieithog’. Yr oedd beirniadaeth hefyd nad oedd dim yn y ddogfen a orfodai Benaethiaid Is-adrannau i gydymffurfio â’r Cynllun, bod y targedau yn y ddogfen yn annigonol a braidd yn annelwig, a bod gormod o bwyslais ar gyfieithu dogfennau a dim digon ar ganiatáu’r hawl i bobl ddefnyddio’r iaith.
- Gwnaed y pwynt hefyd y dylai datblygiadau mewn technoleg ganiatáu i bobl a oedd yn ffonio ac yn dymuno siarad yn Gymraeg ddewis cael eu cyfeirio at siaradwr Cymraeg.
- Atebodd swyddogion fod y targedau ar gyfer ymatebion i ohebiaeth yr un fath yn Gymraeg a Saesneg. O ran niferoedd staff dwyieithog, credir bod y targedau a osodwyd yn realistig a chyraeddadwy. O ran technoleg newydd, gwneir pob ymdrech i ddefnyddio’r dechnoleg hon i gyrraedd y targedau yn y cynllun. Dywedwyd wrth yr aelodau mai dogfen ddrafft oedd y cynllun o hyd ac y byddai trafodaethau â chydweithwyr yn y gwasanaeth sifil ar weithredu’r cynllun yn parhau gydol yr haf. Byddai ymgynghori ffurfiol â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglyn â chynnwys y cynllun yn yr hydref.
- Atgoffodd y Gweinidog yr aelodau fod y ganran o weision sifil a allai weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o 2% ym Mharc Cathays i dros 30% yng Nghaerfyrddin.
- Dywedodd y Cadeirydd fod angen hefyd i’r Pwyllgor ddod i ddeall sut y bwriadai Swyddfa’r

Llywydd ateb gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Addawodd ysgrifennu at y Llywydd ynglyn â hynny a chrybwyll mater cyfleusterau cyfieithu ar gyfer gwasanaethau aelodau hefyd.

**Materion eraill**

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiadau ynglyn ag:

- **Ailwampio Cyngor Celfyddydau Cymru – Swyddogion Celfyddydau Gweledol**
- **Clwyd Theatr Cymru – Theatr Symudol**

Cyplysir testun y ddau datganiad â'r cofnodion hyn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**
**Gorffennaf 2001**

## AILWAMPIO CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU

## SWYDDOGION CELFYDDYDAU GWELEDOL

Rhoddodd y Cadeirydd rybudd ymlaen llaw i mi yr hoffech ddatganiad ynglyn â'r effaith y bydd cynigion ailwampio Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei chael ar eu Tîm Celfyddydau Gweledol.

Yn gyntaf, mae angen pwysleisio mai cynigion yw'r rhain. Rwyf wedi cytuno iddynt mewn egwyddor. Byddaf yn dymuno edrych yn feirniadol iawn ar y costiadau dros yr haf cyn y gallaf eu hawdurdodi'n derfynol. Cyn gwneud hynny, byddaf am gael fy modloni bod y costiadau yn gadarn, yn fforddiadwy, a'u bod yn rhoi gwerth am arian.

Ar hyn o bryd, mae'r tîm o swyddogion sy'n ymdrin â'r celfyddydau gweledol wedi ei leoli ym mhencadlys y Cyngor yng Nghaerdydd.

Cynigiodd Anthony Everitt yn ei adroddiad y dylai swyddogaethau swyddi Swyddogion Celfyddydau, wrth iddynt ddod yn wag, gael eu trosglwyddo i swyddfeydd rhanbarthol mewn gwahanol rannau o Gymru.

Felly, er enghraifft, bydd y prif swyddogion cerddoriaeth a dawns yn cael eu lleoli yn swyddfa De Cymru; drama yn swyddfa Gogledd Cymru; a chelfyddydau gweledol a chrefftau yn swyddfa Gorllewin Cymru.

Bydd y swyddogion arweiniol hyn wedi eu lleoli yn y swyddfeydd hynny, ond bydd ganddynt gyfrifoldeb arweiniol dros eu ffurfiau ar gelfyddyd dros Gymru gyfan.

Bydd hyn yn rhoi grym ymarferol i'r symudiad tuag at fwy o ddatganoli ar swyddogaethau'r Cyngor.

Nid oes unrhyw wirionedd yn yr honiad bod hyn y groes i gynigion yr Athro Everitt. I'r gwrthwyneb, mae'n seiliedig ar ei gynigion ef. Roedd yr Athro Everitt yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor a benderfynodd y dylid lleoli'r swyddi celfyddydau gweledol yng Nghaerfyrddin, a chymeradwyodd y symud.

Byddai'r symud, os cytunwn i'r costiadau, yn gwneud llawer iawn i wella'r cysylltiadau rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a phob ardal yng Nghymru y tu allan i Gaerdydd.

**CLWYD THEATR CYMRU: THEATR SYMUDOL**

Addewais ddoe y byddwn yn rhoi ymateb llawnach i chi y prynhawn yma ar sefyllfa cais Clwyd Theatr Cymru am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru tuag at ei theatr symudol.

Ni fyddai'n briodol i mi, fel Gweinidog, geisio amau barn artistig unrhyw Gorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ynghylch penderfyniadau unigol yn ymwneud â cheisiadau penodol am gymorth grant. Er hynny, byddem am gael sicrwydd bod Corff o'r fath yn dilyn y drefn briodol wrth ddod i benderfyniadau. Rydym wedi nodi'r pryder yr ydych chi ac eraill wedi ei fynegi ynghylch penderfyniad Cyngor Celfyddydau Cymru ar y theatr symudol. Rydym felly yn trefnu i adolygu'r gweithdrefnau a ddilynwyd gan y Cyngor wrth wneud y penderfyniad gwreiddiol, er mwyn ein bodloni ein hunain bod y Cyngor wedi dilyn y drefn briodol. Mae'r adolygiad yn cael ei gynnal gan ein Grwp Cyllid ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol, sy'n Swyddog Cyfrifo Gweithredol dros Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bid a fo am yr adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol, mae modd i'r Cyngor ystyried apêl gan Theatr Clwyd mewn rhai amgylchiadau. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu 'Cod Arferion Gorau' sy'n nodi'r amgylchiadau y gellir ystyried apêl ynddynt. Bydd y Swyddog Cyfrifo Gweithredol yn ystyried a ddylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Apêl. Fodd bynnag, onid ydynt yn ateb y meini prawf ar gyfer apelio, gall Theatr Clwyd gyflwyno cais diwygiedig. Yn y naill achos neu'r llall, mae cyfle gan Theatr Clwyd i gael ystyried eu cais eto. Ni fydd y Cadeirydd yn ymwneud ag ystyried nac apêl na chais newydd. Os bydd y Cyngor yn ystyried apêl, bydd yn galw panel apêl arbennig a fydd yn cynnwys aelodau na fuont yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd angen i'r panel apêl gyflwyno ei gasgliad i'w ystyried gan y Cyngor llawn. Unwaith eto, bydd y Cadeirydd yn ildio'r Gadair pan ystyrir argymhelliad y panel apêl gan y Cyngor llawn.

Gobeithio bod hyn yn eich sicrhau ein bod i gyd yn ymwybodol o’r angen i’r gweithdrefnau fod yn gwbl deg, ac yn weledol felly, a’n bod wedi gwneud trefniadau i sicrhau mai felly y bydd.